Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Y Cam Cynta**

**Y Cam Cynta**
**Peniel**
**Caerfyrddin**
**SA32 7AB**

## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

14/10/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn âY Cam Cynta

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Jennifer Jones |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 3 Rhagfyr 2019 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Excellent** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Excellent** |
| **Yr Amgylchedd** | **Excellent** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Excellent** |

Ewch i ddiwedd yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth am raddau.

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf iawn ac maent yn cyfathrebu'n hyderus gyda'i gilydd a gyda'r staff. Maent yn datblygu cydberthnasau cryf ac yn mynegi eu barn yn agored, gan wybod y gwrandewir arnynt. Mae'r plant yn hynod hapus ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol yn annibynnol.

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau'n gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol y plant er mwyn sicrhau eu llesiant yn llwyddiannus. Mae'r staff yn wybodus, yn garedig ac yn ofalgar ac yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Maent yn cynllunio a hyrwyddo eu hathroniaeth addysgeg yn effeithiol i ddatblygu diddordebau a chwilfrydedd y plant yn llwyddiannus.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau rhagorol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Maent yn sicrhau bod gan y plant fynediad at ystod eang a chyffrous o adnoddau i feithrin eu sgiliau datblygiadol ac yn cynnig cyfleoedd gwych i chwarae a dysgu mewn amrywiaeth o fannau awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n gyson â'r holl reoliadau perthnasol ac yn rhagori ar y Safonau Cenedlaethol Gofynnol. Mae ganddynt weledigaeth gref ar gyfer y dyfodol ac maent yn sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd parhaus i ddatblygu'n broffesiynol. Maent yn angerddol am sicrhau eu bod yn cynnig gofal o safon uchel iawn. Maent wedi datblygu partneriaethau cryf ar draws y gymuned a gyda athrawon cyswllt er mwyn caniatáu cyfleoedd arloesol i blant.

| **Llesiant** | **Excellent** |
|---|---|

Mae plant yn cyfathrebu'n hyderus iawn gan bod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Maent yn cael cyfleoedd cyffrous i wneud dewisiadau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac wrth eu bodd yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Gwelwyd plant yn dewis bod tu fewn neu tu allan yn chwarae, yn dewis eu gweithgareddau ac yn symud yn rhydd. Mae'n amlwg bod gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn, gan feithrin cydberthnasau agos, ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion y dydd. Mae teimladau'r plant yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n fawr. Mae plant yn agosáu at staff gofal i gael cwtsh, neu yn hapus i fod gyda phlant eraill.

Mae naws hyfryd ym mhob ystafell ac mae'n amlwg bod y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus iawn. Fe welwyd tystiolaeth o fwynhad, sgwrsio a chwerthin trwy gydol y dydd. Yn ystafell y babis, roedd rhai yn hapus i grwydro, tra bod eraill yn fwy gyfforddus i eistedd ar pen-glin staff ac yn amlwg yn teimlo'n saff ac yn hapus. Mae plant yn ymdopi yn dda iawn wrth bod ar wahân i'w rhieni am fod cyfnodau pontio wedi eu hystyried yn ofalus ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'u gilydd a gyda'r staff gofal yn gyson, gyda phob un yn cyfathrebu'n hapus ac yn frwdfrydig. Mae plant, yn cynnwys babis, yn llwyddo i mynegi eu hunain yn dda iawn a mae lefel y rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn dangos tystiolaeth bod plant yn gyfforddus iawn. Mae plant ar draws yr ardaloedd chwarae yn egnïol ac yn gyffrous i chwarae gydag eraill gan awgrymu syniadau, trafod a chyfathrebu. Mae plant yn sensitif i anghenion eraill a gwelwyd enghraifft o hyn pan oedd un plentyn bach ar ei feic a phlentyn hŷn yn sefyll ar gefn y beic. Dyma'r plentyn bach yn gofyn iddo symud, a daeth y bachgen hŷn oddi ar y beic heb ffws. Mae plant yn cael rhyddid sylweddol i archwilio'r amgylchedd dan do a thu allan yn ddiogel, sydd yn sicrhau llif rhydd a mwynhad i benderfynu ar liwt eu hunain. Maent yn llwyr ymroi ac yn dangos parch at eiddo a phob un yn gyson. Enghraifft o hyn oedd pan oedd grŵp o blant yn eistedd wrth y bwrdd yn ysgrifennu cardiau a'u postio wrth cefnogi eu gilydd, cymryd tro, rhannu a helpu eraill.

Mae plant yn dangos hunan gymhelliad i ddechrau chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau. Maent yn cael cyfleoedd rhagorol ar gyfer eu hoedran/datblygiad, gyda'r lleoliad wedi'i gynllunio yn ofalus i gwrdd a gofynion oedrannau'r plant. Tu fewn, mae yna corneli penodol yn cynnig darpariaeth ac adnoddau heb fod gormod o bethau, a thu allan mae bob math o dirlun yn cynnig cyfleoedd chwarae heriol i ddatblygu sgiliau corfforol. Mae plant yn annibynnol ac yn hyderus i wneud pethau drostynt eu hunain. Yn ystod amser snac, fe welwyd plant yn annibynnol wrth ddefnyddio cyllell i dorri tost. Maent yn cael cyfleoedd i ddatrys problemau, datblygu'n greadigol ac arbrofi.

**Gofal a Datblygiad** **Excellent**

Mae staff yn deall polisïau ac yn eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol y plant. Mae staff yn rheoli risgiau yn barhaol ac effeithiol ac yn ymwybodol o ddiogelwch y plant a'u hunain. Rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu ac mae bron pob ymarferydd yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn fanwl. Maent yn hyderus eu bod yn rhan o dîm sy'n cyd-weithio'n ofalus i sicrhau bod diogelwch a iechyd y plant yn flaenoriaeth. Mae gweithdrefnau ac arferion glanhau a hylendid cadarn yn eu lle, lle mae pawb yn cymryd y gyfrifoldeb ac yn ymwybodol iawn o rotas, ond hefyd yn gweld a chwblhau tasgau pan fo angen.

Mae staff yn cwblhau cofnodion o ddatblygiad plant mewn ffurf llyfrau cofnod ar gyfer babis a phlant hŷn. Mae'r llyfrau yn cynnwys gwybodaeth a lluniau sydd hefyd yn cael eu cadw mewn ffeiliau unigol y plant ar App Book Creator, i greu adroddiadau ar gyfer rhieni. Mae staff yn cwblhau cynlluniau gwaith cynhwysfawr ynghyd â'r broses o gydweithio gyda sefydliadau allanol ac athrawes gyswllt i gynnig profiadau ychwanegol. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad a'r staff yn ystyried a chyflwyno syniadau newydd ac arloesol yn barhaol, wrth ymweld â lleoliadau eraill a mynychu hyfforddiant, er enghraifft, cyflwyno 'Whiteboards' o fewn yr ystafelloedd i gofnodi arsylwadau yn hytrach na chofnodi popeth yn y llyfrau cofnod.

Esiampl rhagorol o sut mae staff yn adnabod anghenion unigol y plant oedd y berthynas rhwng y cogydd, y staff a'r plant. Mae dealltwriaeth wedi'i adeiladu wrth gadw cofnodion a'r batrymau o fwyta ac adnabod ffyrdd eraill i gyflwyno bwydydd wahanol wrth cyd-weithio gyda rhieni. Mae tystiolaeth clir o sicrhau diogelwch plant ag alergeddau, gyda phosteri yn cynnwys gwybodaeth cyfredol yn y gegin ac yn yr ystafell staff.

Mae staff yn dangos sgiliau pellach wrth gefnogi plant sy'n teimlo'n rhwystredig i gyfathrebu eu anghenion. Maent yn rhoi amser i drafod, cynnig opsiynau eraill i chwarae, trefnu'r grŵp gyda gofal, a rheoli'r sefyllfa yn ofalus wrth ystyried y plant drwy'r broses. Mae staff yn cefnogi plant wrth iddynt fynd i'r tai bach yn annibynnol, a mae ganddynt ymwybyddiaeth clir o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a lles y plant. Mae parch y staff tuag at lais y plant yn amlwg a chlywyd staff yn gyson yn gofyn, *'ti ishe mwy?' 'Ble wyt ti ishe chwarae?'*

| Yr Amgylchedd | Excellent |
| --- | --- |

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd sydd yn lân, yn groesawgar, yn gynnes ac yn ddiogel. Mae’r safle yn cynnig lefel ardderchog o ddiogelwch lle mae’r lleoliad o dan glo ar bob adeg, yn caniatáu’r plant i gael y rhyddid i symud yn annibynnol o amgylch eu hardaloedd ac adrannau mewnol, yn ogystal â’r ardaloedd allanol.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad wedi datblygu’r amgylchedd ers yr arolwg diwethaf. Mae cysgod mawr wedi’i adeiladu tu ôl i’r lleoliad sydd o fewn ffens diogel ac yn caniatáu i’r plant gael llif rhydd mewn a mas o’r adeilad. Maent hefyd wedi gwneud datblygiadau mawr yn yr ardal allanol. Er enghraifft, maent wedi creu ardal llawr rhisgl lle mae gegin fwd, dosbarth allanol dan do, ardal ar gyfer plant dan 2 oed sy’n cynnig cyfleoedd i fabis gael bod allan ar wair ac ardal cysgod i barcio ceir a thractorau. Dywedodd y bobl sydd yn rhedeg y lleoliad bod darpariaeth ychwanegol wedi’i archebu i gefnogi plant ac anghenion dysgu ychwanegol, ac adnoddau i ddatblygu sgiliau corfforol bob plentyn. Yn ogystal â hyn, mae ardaloedd o flaen y lleoliad o fewn gatiau diogel, sydd yn cynnig ardal plannu, lle mae plant yn gallu gweld y broses o blannu, tyfu a bwyta winwns, pys, moron a thatws.

Mae asesiadau risg rhagorol a phwrpasol yn eu lle yn ogystal ac asesiadau perygl tân manwl. Mae gweithdrefnau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd, yn ogystal â sicrhau bod y ddarpariaeth a’r adnoddau mewn lle. Mae trefn rhagorol ar waith papur diogelwch a phrofion, lle mae tystysgrifau a chofnodion i gyd yn gywir. Mae’r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cymarebau staff i blant yn gywir a bod y staff yn goruchwylio plant yn dda iawn. Maent yn cadw dogfennaeth cywir yn cynnwys llyfr ymwelwyr, rotas, cofrestr y plant a chofnod arwyddo y staff, yn sicrhau diogelwch y plant.

Mae’r safle mewnol a’r ardal allanol yn cynnig amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae’r ardaloedd tu fewn a thu allan yn hyrwyddo annibyniaeth y plant gyda’r adnoddau a’r offer o fewn cyrraedd bob plentyn. Mae’r amgylchedd hefyd yn cynnig ardaloedd pwrpasol ar gyfer storio gwaith papur yn gyfrinachol a swyddfa, lle mae modd cynnal trafodaethau cyfrinachol gyda rhieni, gofalwyr ac ymwelwyr.  Mae’r cegin wedi ei gynllunio yn bwrpasol, sy’n caniatáu i’r staff gynnig a pharatoi  bwydlen iach.

Mae’r lleoliad yn cynnig stafelloedd sensori i fabis ac i blant yn hŷn, yn ogystal a stafelloedd chwarae ysgogol. Mae ystod o adnoddau o safon, er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant ac yn caniatáu bod plant yn gweld a chyffwrdd yn rhwydd. Ar ddiwrnod yr ymweliad, fe welwyd yr ‘Ardal Coed’ newydd ar dir yr ysgol cyfagos sydd yn cynnig profiadau newydd rhagorol i ddysgu yn yr awyr agored.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Excellent

Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn brofiadol ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth. Maent yn rhannu hyn ynghyd â llwyddiannau'r gwasanaeth gyda'r tîm o staff, rhieni a defnyddwyr y gwasanaeth drwy ddarparu polisïau clir a datganiad o ddiben sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth. Mae'r bobl sydd yn rhedeg y lleoliad yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau cymwys ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gyson. Maent yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn drefnus iawn o rhan adolygu polisïau, tystysgrifau, gwybodaeth a chofnodion. Er enghraifft, fe welwyd y ffordd yr oedd arsylwi cyfoedion ymysg y tîm yn cael eu gweithredu, gyda thema newydd ar waith bob mis yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r arfer wedi adnabod cryfderau unigol sydd yn arwain at rolau model o safon uchel, ac mae budd y profiadau ar y cyd yn glir, a'r parch yn amlwg.

Gwelwyd ffeiliau unigol anghenion dysgu ychwanegol y plant a'r systemau o gydweithio mewn partneriaeth a phobl proffesiynol meddygol. Gwelwyd esiampl o arfer rhagorol lle ddefnyddiwyd y Famly App i rhannu gwybodaeth am ddiogelwch gyda rhieni, er enghraifft, wrth rhannu gwybodaeth a lluniau am adnoddau bach fel mes. Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y gwasanaeth arfer a dealltwriaeth ardderchog o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'r gwasanaeth yn hybu'r ddiwylliant Gymreig ym mhob agwedd o'i gwasanaeth.

Mae systemau cadarn yn eu lle ar gyfer rhannu a thrafod bob agwedd o arfer da, cynllunio ac adfyfyrio ar gyfer gwelliant am y dyfodol. Mae'r gweithdrefnau yma yn cael eu cwblhau ar y cyd, fel tîm, drwy cyfarfodydd staff effeithiol a chyfathrebu dyddiol. Ar ddiwrnod yr ymweliad, fe welwyd tystiolaeth o gynllunio ar gyfer casglu barn bob aelod o'r tîm, er mwyn cwblhau y broses yma ar y cyd. Mae'r weledigaeth ar gyfer datblygu yn barhaol, yn rhagorol a phwrpasol. Er enghraifft, clywyd am syniadau newydd yn ymwneud a chyflwyno amser snac mewn modd wahanol yn dilyn hyfforddiant staff mewn lleoliad Froebel yn Llundain. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i ennill nifer o wobrwyon ac yn parhau i weithio i godi'r safon yn uwch.

Mae gan y bobl sydd yn rhedeg y lleoliad gysylltiadau cryf ag amrywiaeth o ddefnyddwyr, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, gyda rhieni hefyd wedi ymrwymo i helpu a chreu adnoddau. Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol cyfagos yn gryf ac fe welwyd yr 'Ardal Coed' newydd sydd yn cynnig safle diogel a chyffrous ar gyfer profiadau natur newydd. Ar ddiwrnod yr ymweliad, dywedodd rhieni eu bod wrth eu bodd gyda'r gwasanaeth a bod eu plant yn hapus iawn. Roedd ganddynt clod am y cyfathrebu clir a chyson a'r gefnogaeth barhaol, yn enwedig yn ystod y cyfnod clo, lle roeddent wedi teimlo'n ddiogel tra'n sicrhau lles corfforol a meddyliol eu plant. Dywedodd staff eu bod wrth eu bodd yn gweithio yn y lleoliad ac yn mwynhau cwmni eu gilydd a'r cyfleoedd i ddatblygu'n bellach.

## Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

Nid oes unrhyw argymhellion.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/12/2022